

Haf 2021: Crynodeb o ddulliau graddio Cymwysterau Galwedigaethol a Chymwysterau Cyffredinol Eraill CBAC

Fersion 2 – 26 Mawrth 2021

Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth i ganolfannau **yng Nghymru** am y trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau Galwedigaethol a Chymwysterau Cyffredinol Eraill CBAC yn haf 2021.

Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb o'r dull ar gyfer pob math o gymhwyster a sail resymegol dros eu cynnwys fel cymwysterau sydd y *tu mewn i'r cwmpas*.

Cymwysterau Galwedigaethol CBAC		
Cymhwyster	Dull o asesu a dyfarnu yn Haf 2021	Sail resymegol
Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol	Dylai athrawon barhau i ddarparu'r cymwysterau hyn yn unol â'r Fanyleb a'r addasiadau a gyhoeddwyd ar wefan CBAC. Ni fydd arholiadau allanol yn cael eu cynnal yr haf hwn. Dylai asesiadau dan reolaeth mewnol barhau lle y bo'n bosibl ac yn briodol. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau i ganolfannau ynghylch y trefniadau i'w rhoi ar waith wrth ganiatáu i ymgeiswyr gwblhau asesiadau gartref. Trefniadau ar gyfer dysgwyr sy'n ardystio Bydd pob dysgwr sy'n ardystio yr haf hwn, gan gynnwys dysgwyr a gafodd ganlyniad	Mae'r cymwysterau hyn yn debyg o ran eu strwythur a'u dyluniad i gymwysterau TGAU a TAG unedol, ac yn cael eu haddysgu mewn ysgolion a cholegau ochr yn ochr â chymwysterau TGAU a TAG UG a Safon Uwch, a chânt eu defnyddio yn bennaf i gefnogi symud ymlaen i addysg bellach/uwch. Mae llawer o amharu wedi bod ar addysgu, dysgu a gweithgareddau asesu dysgwyr, ac mewn rhai pynciau, efallai nad ydynt wedi gallu cael mynediad at gyfarpar arbenigol a manau gweithio.

	uned/cymhwyster wedi'i ddyfarnu iddynt mewn cyfres flaenorol ac sy'n anhapus â'r canlyniad a ddyfarnwyd, yn gymwys ar gyfer Gradd Asesu Athrawon (GAA). • Bydd gofyn i athrawon ddarparu gradd cymhwyster gyfannol yn seiliedig ar dystiolaeth o gyflawniad yr ymgeisydd wrth astudio'r cymhwyster. • Ni fydd canlyniadau unedau yn cael eu dyfarnu i ddysgwyr sy'n ardystio yr haf hwn. Bydd gwybodaeth ychwanegol am y trothwyau tystiolaethol lleiaf ar gyfer y cymwysterau hyn ar gael i ganolfannau ym mis Mawrth. Trefniadau ar gyfer dysgwyr sydd ddim yn ardystio (rhan o'r ffordd drwy'r cymhwyster) Mae'r dysgwyr hynny sydd ran o'r ffordd drwy eu cymwysterau a fyddent fel arfer yn cwblhau asesiadau unedau yn yr haf yn gymwys i dderbyn Graddau a Asesir gan Athrawon unedau ar gyfer yr unedau hyn. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau dyfarnu galwedigaethol eraill y CGC ar hyn o bryd i ddatblygu dull cyson a threfnu cyfnod penodol i gasglu'r graddau a asesir gan athrawon ar gyfer unedau. Bydd hyn yn digwydd yn nes ymlaen eleni i wneud y mwyaf o'r amser addysgu a dysgu.	Bydd yr amharu ar gyfres Ionawr hefyd wedi effeithio ar argaeledd asesiadau wedi'u bancio a chyfleoedd i ailsefyll ar gyfer rhai dysgwyr. Nid yw'r cymwysterau hyn yn cynnwys asesu sgiliau na chymhwysedd galwedigaethol.
--	---	--

Cymwysterau Cyffredinol Eraill CBAC		
Cymhwyster	Dull o asesu a dyfarnu yn Haf 2021	Sail resymegol
Tystysgrifau Lefel Mynediad	Dylai athrawon barhau i ddarparu'r cymwysterau hyn yn unol â'r Fanyleb a'r addasiadau a gyhoeddwyd ar wefan CBAC. Ni fydd arholiadau allanol yn cael eu cynnal yr haf hwn. Dylai asesiadau dan reolaeth mewnol barhau lle y bo'n bosibl ac yn briodol. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau i ganolfannau ynghylch y trefniadau i'w rhoi ar waith wrth ganiatáu i ymgeiswyr gwblhau asesiadau gartref. Trefniadau ar gyfer dysgwyr sy'n ardystio - Bydd pob dysgwr sy'n ardystio yr haf hwn, gan gynnwys dysgwyr a gafodd ganlyniad uned/cymhwyster wedi'i ddyfarnu iddynt mewn cyfres flaenorol ac sy'n anhapus â'r canlyniad a ddyfarnwyd, yn gymwys ar gyfer Gradd Asesu Athrawon (GAA). - Bydd gofyn i athrawon ddarparu gradd cymhwyster gyfannol yn seiliedig ar dystiolaeth o gyflawniad yr ymgeisydd wrth astudio'r cymhwyster.	Mae'r cymwysterau hyn yn debyg o ran eu strwythur a'u dyluniad i gymwysterau TGAU unedol, ac yn cael eu haddysgu mewn ysgolion a cholegau ochr yn ochr â chymwysterau TGAU, a chânt eu defnyddio yn bennaf i gefnogi symud ymlaen i addysg bellach. Mae llawer o amharu wedi bod ar addysgu, dysgu a gweithgareddau asesu dysgwyr, ac mewn rhai pynciau, efallai nad ydynt wedi gallu cael mynediad at gyfarpar arbenigol a mannau gweithio. Bydd yr amharu ar gyfres Ionawr hefyd wedi effeithio ar argaeledd asesiadau wedi'u bancio a chyfleoedd i ailsefyll ar gyfer rhai dysgwyr. Nid yw'r cymwysterau hyn yn cynnwys asesu sgiliau na chymhwysedd galwedigaethol.

	Cyhoeddir gwybodaeth bellach am ofynion tystiolaeth a chanllawiau i gefnogi'r broses o gasglu Graddau a Asesir gan Athrawon y Cymhwyster erbyn diwedd mis Mawrth Trefniadau ar gyfer dysgwyr sydd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster Bydd trefniadau yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau na fydd dysgwyr sydd ran o'r ffordd drwy eu cwrs dan anfantais oherwydd y trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer dyfarnu cymwysterau yr haf hwn.	
Lefel 1 Tystysgrifau mewn Lladin	Dylai athrawon barhau i ddarparu'r cymwysterau hyn yn unol â'r addasiadau a gyhoeddwyd ar wefan CBAC. Ni fydd arholiadau allanol yn cael eu cynnal yr haf hwn. Dylai asesiadau mewnol barhau lle y bo'n bosibl ac yn briodol. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau i ganolfannau ynghylch y trefniadau i'w rhoi ar waith wrth ganiatáu i ymgeiswyr gwblhau asesiadau gartref. Trefniadau ar gyfer dysgwyr sy'n ardystio Bydd pob dysgwr sy'n ardystio yr haf hwn, gan gynnwys dysgwyr sydd wedi sefyll asesiad mewn cyfres flaenorol ac sy'n	Mae'r cymwysterau hyn yn debyg o ran eu strwythur a'u dyluniad i gymwysterau TGAU unedol, ac yn cael eu haddysgu mewn ysgolion a cholegau ochr yn ochr â chymwysterau TGAU, a chânt eu defnyddio yn bennaf i gefnogi symud ymlaen i addysg bellach. Mae llawer o amharu wedi bod ar addysgu, dysgu a gweithgareddau asesu dysgwyr. Bydd yr amharu ar gyfres Ionawr hefyd wedi effeithio ar argaeledd asesiadau wedi'u bancio a chyfleoedd i ailsefyll ar gyfer rhai dysgwyr.

	anhapus â'r canlyniad a ddyfarnwyd, yn gymwys ar gyfer Gradd Asesu Athrawon (GAA). • Bydd gofyn i athrawon ddarparu gradd cymhwyster gyfannol yn seiliedig ar dystiolaeth o gyflawniad yr ymgeisydd wrth astudio'r cymhwyster. • Ni fydd canlyniadau unedau yn cael eu dyfarnu i ddysgwyr sy'n ardystio yr haf hwn. Cyhoeddir gwybodaeth bellach am y gofynion tystiolaeth i gefnogi'r broses Graddau a Asesir gan Athrawon y Cymhwyster erbyn diwedd Mawrth. Trefniadau ar gyfer dysgwyr sydd ddim yn ardystio Ni fyddwn yn dyfarnu canlyniadau unedau am y cymwysterau hyn yn yr haf. Caiff trefniadau eu gwneud ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 i sicrhau na fydd dysgwyr sydd ran o'r ffordd drwy eu cwrs dan anfantais oherwydd y trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn yr haf.	Nid yw'r cymwysterau hyn yn cynnwys asesu sgiliau na chymhwysedd galwedigaethol.
--	--	---

Lefel 2 Tystysgrif mewn Mathemateg Ychwanegol	Dylai athrawon barhau i ddarparu'r cymhwyster hwn yn unol â'r Fanyleb gyhoeddedig. Ni fydd yr arholiad allanol yn cael ei gynnal yn yr haf. Bydd pob dysgwr sy'n cael eu cofrestru yr haf hwn yn gymwys ar gyfer Gradd Asesu Athrawon (GAA), gan gynnwys dysgwyr sydd wedi sefyll y cymhwyster mewn cyfres flaenorol ac sy'n anhapus â'r canlyniad a ddyfarnwyd. Cyhoeddir gwybodaeth bellach am y gofynion tystiolaeth i gefnogi'r broses Graddau a Asesir gan Athrawon y Cymhwyster erbyn diwedd Mawrth.	Addysgir y cymhwyster hwn mewn ysgolion a cholegau ochr yn ochr â TGAU Mathemateg, a chaiff ei ddefnyddio yn bennaf i gefnogi symud ymlaen i TAG Mathemateg. Mae llawer o amharu wedi bod ar addysgu, dysgu a gweithgareddau asesu dysgwyr ac efallai nad ydynt wedi gallu cael mynediad at yr adnoddau i gwblhau eu Project Estynedig fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Nid yw'r cymhwyster hwn yn cynnwys asesu sgiliau na chymhwysedd galwedigaethol.
--	---	---

Cymwysterau Llwybrau CBAC		
Cymhwyster	Dull o asesu a dyfarnu yn Haf 2021	Sail resymegol
Llwybrau Mynediad Sgiliau Hanfodol ar gyfer Bywyd a Gwaith Cymraeg Gwaith	Dylai athrawon barhau i ddarparu'r cymwysterau hyn yn unol â'r Manylebau cyhoeddedig. Dylai asesiadau barhau lle y bo'n bosibl ac yn briodol. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau i ganolfannau ynghylch y trefniadau i'w rhoi ar waith wrth ganiatáu i ymgeiswyr gwblhau asesiadau gartref. Atgoffir canolfannau nad yw'r tasgau asesu a ddarparwyd gan CBAC yn rhai gorfodol ac y gellir addysgu'r dysgu a'r asesu ar gyfer amrywiol anghenion a sefyllfaoedd Trefniadau ar gyfer dysgwyr sy'n ardystio Mae natur y cymwysterau hyn yn unedol a gall yr unedau hyn gyfrannu at un neu fwy o gymwysterau. Oherwydd hynny byddwn yn dyfarnu canlyniadau unedau ar gyfer ein cymwysterau Llwybrau Mynediad yn yr haf a byddant yn cael eu defnyddio i gyfansymio tuag at gymwysterau llawn fel mewn blwyddyn arferol. Oherwydd bod yr amharu'n parhau i'r addysgu a'r dysgu, gofynnir i athrawon ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael	Mae'r cymwysterau unedol seiliedig ar greddydau hyn yn cydnabod gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn amrywiaeth eang o bynciau a sgiliau. Er eu bod yn cael eu haddysgu mewn amrywiaeth o ganolfannau, addysgir mwyafrif y cymwysterau hyn mewn ysgolion a cholegau, a chânt eu defnyddio yn bennaf i gefnogi symud ymlaen i addysg bellach a hyfforddiant. Mae llawer o amharu wedi bod ar addysgu, dysgu a gweithgareddau asesu dysgwyr, ac mewn rhai pynciau, efallai nad ydynt wedi gallu cael mynediad at gyfarpar arbenigol a mannau gweithio. Bydd yr amharu ar gyfres Ionawr hefyd wedi effeithio ar argaeledd asesiadau wedi'u bancio a chyfleoedd i ailsefyll ar gyfer rhai dysgwyr. Nid yw'r cymwysterau hyn yn cynnwys asesu sgiliau na chymhwysedd galwedigaethol.

	iddynt i ffurfio barn ar berfformiad dysgwr. Ni fydd disgwyl i ddysgwyr fod wedi cwblhau'r holl unedau y mae eu hangen fel arfer i hawlio cymhwyster penodol nac y bydd unedau wedi'u hasesu'n llawn. Trefniadau ar gyfer dysgwyr sydd ddim yn ardystio O ran dysgwyr sydd ran o'r ffordd drwy eu cwrs gellir dyfarnu canlyniadau unedau ar gyfer unedau y byddent wedi disgwyl eu cwblhau ym mlwyddyn academiaidd 2020/21. Cyhoeddir gwybodaeth ychwanegol am ofynion tystiolaeth a chanllawiau i gefnogi'r broses asesu a graddio ar gyfer dysgwyr sy'n ardystio a dysgwyr sydd ddim yn ardystio erbyn diwedd Mawrth.	
Unedau leithoedd	Dylai athrawon barhau i ddarparu'r unedau hyn yn unol â'r Fanyleb gyhoeddedig. Dylid parhau i gynnal asesiadau. Atgoffir canolfannau nad oes cynnwys na gofynion asesu penodol a gellir addasu'r dysgu ac asesu i amrywiaeth o anghenion a sefyllfaoedd. Cyhoeddir gwybodaeth bellach am y gofynion tystiolaeth a'r prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer y cymwysterau hyn erbyn diwedd Mawrth	Mae amrywiaeth o ganolfannau yn cynnig y cymwysterau hyn, gan gynnwys ysgolion, colegau a darparwyr dysgu oedolion a chymunedau. Nid ydynt yn cynnwys asesu sgiliau na chymhwysedd galwedigaethol ond maent yn cynnwys asesu sgiliau iaith.

Lefel 3 Diploma mewn Celf a Dylunio (FAD)	Dylai athrawon barhau i ddarparu'r cymhwyster hwn yn unol â'r Fanyleb gyhoeddedig. Dylai asesiadau barhau lle y bo'n bosibl ac yn briodol. Cyhoeddir gwybodaeth bellach am y gofynion tystiolaeth a chanllawiau i gefnogi'r broses asesu a graddio ar gyfer dysgwyr sy'n ardystio erbyn diwedd Mawrth.	Addysgir y cymhwyster hwn mewn ysgolion a cholegau ochr yn ochr â chymwysterau TAG UG a Safon Uwch, a chaiff ei ddefnyddio yn bennaf i gefnogi symud ymlaen i addysg uwch. Mae llawer o amharu wedi bod ar addysgu, dysgu a gweithgareddau asesu dysgwyr ac efallai nad ydynt wedi gallu cael mynediad at yr adnoddau i gwblhau'r cymhwyster fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Nid yw'r cymhwyster hwn yn cynnwys asesu sgiliau na chymhwysedd galwedigaethol.
--	---	---

Tystysgrifau Her Sgiliau		
Cymhwyster	Dull o asesu a dyfarnu yn Haf 2021	Sail resymegol
Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen	Dylai athrawon barhau i ddarparu'r cymhwyster hwn yn unol â'r addasiadau a gyhoeddwyd ar wefan CBAC .	Mae'r cymwysterau hyn yn cael eu haddysgu mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru ac maent yn dilyn cylchred academiaidd.
Tystysgrif Her Sgiliau Uwch	Bydd pob dysgwr sy'n ardystio yr haf hwn yn gymwys ar gyfer Gradd wedi'i Phennu gan y Ganolfan, gan gynnwys dysgwyr sydd wedi sefyll Cydrannau mewn cyfres flaenorol ac sy'n anhapus â'r canlyniad a ddyfarnwyd. Mae gwybodaeth bellach wedi'i hanfon at swyddogion arholiadau.	Mae Cymwysterau Cymru wedi cadarnhau y dylai'r trefniad ar gyfer y cymwysterau hyn gyfateb i'r dull o ddyfarnu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u Cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru yn haf 2021.

Sgiliau Hanfodol Cymru		
Cymhwyster	Dull o asesu a dyfarnu yn Haf 2021	Sail resymegol
Sgiliau Hanfodol Cymru	Lle y bo'n bosibl, dylai asesiadau barhau yn unol â'r addasiadau a gyhoeddwyd ar wefan CBAC. Os bydd dysgwyr yn methu cwblhau asesiad wedi'i addasu, a byddai gohirio asesu yn effeithio'n negyddol ar ddilyniant, mae'r dysgwr yn gymwys ar gyfer Gradd wedi'i Phennu gan y Ganolfan. Bydd gwybodaeth bellach i'w gweld ar dudalen y cymhwyster ar wefan CBAC.	Mae pedwar corff dyfarnu yn cynnig y cymwysterau hyn yng Nghymru ac maent yn cael eu darparu gan amrywiaeth eang o ganolfannau mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae addasiadau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020/21 wedi'u cytuno â Cymwysterau Cymru i gefnogi parhad asesiadau lle y bo'n bosibl. Mae Cymwysterau Cymru hefyd wedi cadarnhau y bydd canolfannau'n gallu darparu Gradd wedi'i Phennu gan y Ganolfan i ddysgwyr nad ydynt yn gallu cael mynediad at y dulliau asesu wedi'u haddasu

Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Cymru)



Cymhwyster	Dull o asesu a dyfarnu yn Haf 2021	Sail resymegol
Lefel 2/3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau	Dylai athrawon barhau i ddarparu'r cymhwyster hwn yn unol â'r addasiadau a gyhoeddwyd ar wefan y Consortiwm (www.dysguiechydagofal.cymru). Fel y cytunwyd â Cymwysterau Cymru: - Ni fydd arholiadau allanol yn cael eu cynnal yr haf hwn. - Bydd pob dysgwr sy'n ardystio yr haf hwn, gan gynnwys dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer yr arholiad allanol mewn cyfres flaenorol ac sy'n anhapus â'r canlyniad a ddyfarnwyd, yn gymwys ar gyfer Gradd wedi'i Phennu gan y Ganolfan. Bydd y radd wedi'i phennu gan y ganolfan yn seiliedig ar farn gyfannol o gyflawniad yr ymgeisydd wrth astudio'r cwrs. - Ni fydd canlyniadau unedau yn cael eu dyfarnu yr haf hwn.	Mae'r cymwysterau hyn yn cael eu haddysgu mewn ysgolion a cholegau ac maent yn dilyn cylchred academaidd. Nid ydynt yn cynnwys asesu sgiliau galwedigaethol a chânt eu defnyddio i gefnogi symud ymlaen i addysg bellach/uwch a hyfforddiant. Mae Cymwysterau Cymru wedi cadarnhau y dylai'r trefniad ar gyfer y cymwysterau hyn gyfateb i'r dull o ddyfarnu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u Cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru yn haf 2021.

	Dylai asesiadau di-arholiad barhau lle y bo'n bosibl ac yn briodol. Mae gwybodaeth bellach wedi'i hanfon at swyddogion arholiadau.	
Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori	Dylai athrawon barhau i ddarparu ac asesu'r cymhwyster hwn yn unol â'r addasiadau a gyhoeddwyd ar wefan y Consortiwm (www.dysquiechydagofal.cymru). Fel y cytunwyd â Cymwysterau Cymru: - Ni fydd arholiadau allanol yn cael eu cynnal yr haf hwn. - Bydd pob dysgwr sydd i fod i sefyll Uned 216 yr haf hwn, gan gynnwys dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer yr arholiad mewn cyfres flaenorol ac sy'n anhapus â'r canlyniad a ddyfarnwyd, yn gymwys ar gyfer Gradd wedi'i Phennu gan y Ganolfan am yr Uned. Mae gwybodaeth bellach wedi'i hanfon at swyddogion arholiadau.	Er bod y cymhwyster hwn yn cael ei addysgu mewn ysgolion a cholegau a'i fod yn dilyn cylchred academiaidd, mae hefyd yn cynnwys asesu sgiliau ymarferol, gan ddangos cymhwysedd galwedigaethol i weithio yn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Ni fyddai'n bosibl dyfarnu'r cymhwyster yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn ddilys os nad yw gwybodaeth a dealltwriaeth allweddol wedi'u dangos a'u hasesu. Mae Cymwysterau Cymru wedi cadarnhau y dylai'r trefniadau ar gyfer Uned 216 gyfateb i'r dull o ddyfarnu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u Cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru yn haf 2021.
Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori	Dylai athrawon barhau i ddarparu ac asesu'r cymhwyster hwn yn unol â'r addasiadau a gyhoeddwyd ar wefan y Consortiwm (www.dysquiechydagofal.cymru). Fel y cytunwyd â Cymwysterau Cymru:	Er bod y cymhwyster hwn yn cael ei addysgu mewn ysgolion a cholegau a'i fod yn dilyn cylchred academiaidd, mae hefyd yn cynnwys asesu sgiliau ymarferol, gan ddangos cymhwysedd galwedigaethol i weithio yn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Ni fyddai'n bosibl dyfarnu'r cymhwyster yn ddiogel,

	- Ni fydd arholiadau allanol yn cael eu cynnal yr haf hwn. - Bydd gan ddysgwyr gyfle i gofrestru ar gyfer yr arholiad allanol ym mis Ionawr a mis Mehefin 2022. Mae gwybodaeth bellach wedi'i hanfon at swyddogion arholiadau.	yn ddibynadwy ac yn ddilys os nad yw gwybodaeth a dealltwriaeth allweddol wedi'u dangos a'u hasesu.
--	--	---

Cymwysterau sydd y tu allan i'r cwmpas ar gyfer trefniadau dyfarnu amgen

Mae'r cymhwyster canlynol y tu allan i'r cwmpas ar gyfer trefniadau asesu a dyfarnu amgen yn Haf 2021. Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb o'r dull ar gyfer pob math o gymhwyster a sail resymegol dros beidio eu cynnwys fel cymwysterau sydd y tu mewn i'r cwmpas ar gyfer y trefniadau ychwanegol.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Cymru)		
 		
Cymhwyster	Dull o asesu a dyfarnu yn Haf 2021	Sail resymegol
Lefel 2 GChDDP: Cymhwyster Craidd	Dylai athrawon barhau i ddarparu'r holl gynnwys a addysgir yn y cymhwyster hwn. Dylai asesiadau barhau yn unol â'r addasiadau a gyhoeddwyd ar wefan y Consortiwm (www.dysguiechydagofal.cymru).	Mae'r cymhwyster Lefel 2 GChDDP: Craidd yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth graidd sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithio yn y sectorau gofal plant a blynyddoedd cynnar. Cytunwyd ar y gofynion asesu wedi'u haddasu ar gyfer 2020/21 â Cymwysterau Cymru a rhanddeiliaid y sector